# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Mawrth 2016

Amser y cyfarfod: 13.00

# (321)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol 2016-17

(60 munud)

**NDM5988 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2016-2017 (Setliad Terfynol - Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2016-2017 (Setliad Terfynol - Cynghorau) (Saesneg yn unig)

## 4 Dadl ar Setliad yr Heddlu 2016-17

(30 munud)

**NDM5989 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2016-2017 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2016-2017 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) (Saesneg yn unig)

## 5 Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

## 6 Cynnig i gymeradwyo diwygiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

(10 munud)

**NDM5990 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

**Dogfen Ategol**

Cod Ymddygiad Ar Gyfer Aelodau'r Cynulliad

## 7 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM4945**

**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod rhwng 300 a 350 o bobl yn marw o ganlyniad i hunanladdiad bob blwyddyn yng Nghymru, gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai hunanladdiad yw'r prif achos o farwolaeth ymhlith pobl ifanc rhwng 20 a 34 oed;

2. Yn cydnabod bod pobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl mewn perygl arbennig ac amcangyfrifir bod gan 90 y cant o bobl sy'n ceisio cyflawni hunanladdiad neu'n marw o ganlyniad i hunanladdiad un neu fwy o gyflyrau iechyd meddwl;

4. Yn credu bod angen gwneud mwy i annog pobl i siarad yn agored am hunanladdiad a theimladau hunanladdol, i godi ymwybyddiaeth a helpu i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael i deimlo eu bod yn dioddef ar eu pen eu hunain;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwella'r broses o gasglu data i adnabod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf;

b) sicrhau bod cymorth dilynol ar gael i bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl hunan-niwed neu geisio cyflawni hunanladdiad;

c) darparu ffyrdd mwy effeithiol o gyfeirio pobl at wasanaethau gwrando ac eiriolaeth;

d) edrych ar gyflawni prosiectau megis y parth tawelwch yn Lerpwl sy'n darparu cyngor sydd ar flaen y gad mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac sy'n apelio at bobl ifanc, ac enghreifftiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill o arferion gorau; ac

e) asesu'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd unigolion sydd â salwch meddwl.

**Cefnogir gan:**

William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

## 8 Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

(60 munud)

**NDM5991 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i gydnabod cyflawniad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod yng Nghymru, a'r angen parhaus i gyflymu cydraddoldeb rhwng y rhywiau – a hynny'n benodol mewn bywyd cyhoeddus.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyfredol yw'r isaf a gofnodwyd erioed.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod mwy o fenywod yn gweithio yn y DU nag erioed o'r blaen.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd tablau cynghrair sy'n rhestru cwmnïau mawr yn ôl trefn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi erbyn 2018.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod menywod sy'n gweithio yng Nghymru wedi wynebu cynnydd mwy mewn costau gofal plant nag mewn mannau eraill yn y DU.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5987 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cadw llywodraeth leol yn lleol - yr achos dros ddiogelu Sir Benfro rhag cynlluniau uno Llywodraeth Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Mawrth 2015 i'w hateb ar 9 Mawrth 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr yPleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

1. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi coedwigaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0427(NR)

2. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth am amaethyddiaeth a materion gwledig ar gael i ffermwyr? OAQ(4)0416(NR)

3. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae canllawiau ar geisiadau cynllunio cloddio glo brig yn rhoi ystyriaeth i anghenion cymunedau lleol? OAQ(4)0421(NR)

4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyletswydd cyrff nad ydynt wedi'u datganoli i gydymffurfio â Bil yr Amgylchedd (Cymru)? OAQ(4)0426(NR)**W**

5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): Sut y rhoddir ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar raddfa fawr ar gyfer datblygiadau tai? OAQ(4)0418(NR)

6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n dlawd o ran tanwydd? OAQ(4)0415(NR)

7. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faterion sy'n gysylltiedig â llifogydd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0428(NR)

8. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl prosiectau ynni cymunedol fel rhan o strategaeth newid hinsawdd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0419(NR)**W**

9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar saethu adar hela yng Nghymru? OAQ(4)0422(NR)

10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn cymunedau arfordirol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0414(NR)

11. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau ar geisiadau ar gyfer cynlluniau pŵer trydan dŵr? OAQ(4)0417(NR)

12. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd ac mae awdurdodau lleol yn ei wneud o ran cwrdd â'u targedau ailgylchu? OAQ(4)0425(NR)

13. Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffurflen gais sengl 2016 ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol? OAQ(4)0424(NR)**W**

14. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y gyfarwyddeb fframwaith dŵr? OAQ(4)0420(NR)**W**

15. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod ein cefn gwlad? OAQ(4)0423(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd rheoliadau gofal plant yn cael effaith andwyol ar wasanaethau chwarae o dan oruchwyliaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol? OAQ(4)0433(CTP)

2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gellir prif-ffrydio yr hyn a gyflawnir gan Dechrau'n Deg? OAQ(4)0437(CTP)

3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r galw am dai mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0428(CTP)

4. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa gynnydd a wnaed o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0438(CTP)**W**

5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog yn nodi'r cynnydd a wnaed ar draws portffolios Llywodraeth Cymru o ran cyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0434(CTP)

6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi teuluoedd yng Nghymru? OAQ(4)429(CTP)

7. Janet Haworth (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid Cymunedau yn Gyntaf yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0432(CTP)

8. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa gynnydd a wnaed o ran hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yn ystod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0439(CTP)**W**

9. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yn Nhorfaen? OAQ(4)0440(CTP)

10. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)0431(CTP)

11. Gwenda Thomas (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygiadau lles ar dlodi absoliwt yng Nghymru? OAQ(4)0427(CTP)

12. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Swyddfa'r Post mewn perthynas â darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)430(CTP)

13. Elin Jones (Ceredigion): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Swyddfa'r Post mewn perthynas ag effaith o adleoli swyddfeydd post yn Aberystwyth a Thregaron? OAQ(4)0436(CTP)**W**

14. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant rhaglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0435(CTP)**W**

15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adfywio canol trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0426(CTP)